AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU

RHEOLAU SEFYDLOG MEWN PERTHYNAS Â CHYTUNDEBAU

ADRAN	PWNC	RHIF(AU) Y TUDALENNAU
1	CYFLWYNIAD	1
2	DIFFINIADAU	1, 2
3	CYMERADWYO CYNLLUNIAU	2
4	CYDYMFFURFIO	2
5	Y GOFYNION PARTHED GWAHODD DYFYNIADAU NEU DENDRAU	3
6	EITHRIADAU DAN Y GOFYNION PARTHED GWAHODD DYFYNIADAU NEU DENDRAU	3
7	CYTUNDEBAU AR GYFER GWAITH A CHYFLENWADAU BRYS	3
8	GWEITHDREFN AR GYFER GWAHODD TENDRAU	4, 5, 6
9	CYFLWYNO A DIOGELU DYFYNIADAU A THENDRAU	6, 7
10	AGOR DYFYNIADAU A THENDRAU	7
11	DYFYNIADAU A THENDRAU HWYR	7
12	GWERTHUSO A DERBYN DYFYNIADAU A THENDRAU	7, 8
13	ADDASIADAU I DDYFYNIADAU A THENDRAU	8
14	IS-GONTRACTWYR A CHYFLENWYR A ENWEBWYD	8, 9
15	FFURF Y CYTUNDEB	9
16	DIOGELWCH PERFFORMIAD Y CYTUNDEBAU	9
17	YSWIRIANT	10
18	MANYLION A SAFONAU	10
19	IECHYD A DIOGELWCH YN Y GWAITH	10
20	GOSOD CYTUNDEBAU	10
21	CANSLO CYTUNDEB/ATAL TWYLL	10
22	PENODI YMGYNGHORWYR	10, 11
23	CYFLOGAU AC AMODAU GWAITH TEG	11, 12

RHEOLAU SEFYDLOG CYTUNDEBAU

1 CYFLWYNIAD

1.1 Ceir y ddarpariaeth statudol ar gyfer llunio Rheolau Sefydlog yn Adran 135 Deddf Llywodraeth Leol 1972 sy'n datgan y canlynol:

(i) Gall awdurdod lleol lunio Rheolau Sefydlog mewn perthynas a'i waith ef o lunio cytundebau neu mewn perthynas ag unrhyw un sy'n gwneud hynny ar ei ran; a

(ii) Gall awdurdod lleol lunio Rheolau Sefydlog mewn perthynas a'i waith ef o lunio cytundebau neu mewn perthynas ag unrhyw un sy'n llunio cytundebau ar ei ran ar gyfer cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau neu ar gyfer cyflawni gwaith.

1.2 Bydd Rheolau Sefydlog a lunnir gan awdurdod lleol mewn perthynas â chytundebau ar gyfer cyflenwinwyddau neu ddeunyddiau neu ar gyfer cyflawni gwaith yn cynnwys darpariaeth ar gyfer sicrhau cystadleuaeth am gytundebau o'r fath ac ar gyfer rheoli'r dull o wahodd tendrau, ond gellir eithrio o unrhyw ddarpariaeth o'r fath gytundebau ar gyfer pris sy'n is na'r pris y manylir yn ei gylch yn y rheolau sefydlog a gallant awdurdodi'r awdurdod i eithrio unrhyw gytundeb o ddarpariaeth o'r fath pan fo'r awdurdod yn fodlon bod modd cyfiawnhau'r eithriad dan amgylchiadau arbennig.

1.3 Nid yw'n ofynnol i berson sy'n llunio cytundeb gydag Awdurdod Tân Gogledd Cymru i ymholi pa un ai y cydymffurfiwyd â'r rheolau sefydlog o eiddo'r awdurdod sy'n berthnasol i'r cytundeb, ac ni fydd methu a chydymffurfio â rheolau o'r fath yn peri i'r cytundeb a luniwyd gan neu ar ran yr Awdurdod Tân fod yn annilys.

1.4 Mae'r Rheolau Sefydlog hyn yn darparu fframwaith hanfodol ar gyfer cynorthwyo A.T.G.C. i ddelio â chytundebau gwaith a chyflenwadau.

1.5 Mae'r Rheolau'n berthnasol i gytundebau ar gyfer gwariant cyfalaf a refeniw, ac yn amrywio o gynlluniau cyfalaf ar raddfa fawr i gyflenwi nwyddau a gwasanaethau o natur refeniw.

1.6 Dylid rhoi gwybod am bob amrywiad neu eithriad a wnaed gan A.T.G.C. i'r Awdurdod Tân gyda'r rhesymau oedd yn cyfiawnhau'r eithriad.

1.7 Paratowyd y Rheolau Sefydlog Cytundebol hyn yn unol â'r Ddeddf Dehongli, a thrwy hynny dylid deall bod y gwrywaidd yn cynnwys y benywaidd a'r unigol yn cynnwys y lluosog.

2 DIFFINIADAU

2.1 Yn y Rheolau Sefydlog hyn, gellir cymryd yr ystyron a ganlyn ar gyfer yr ymadroddion a ganlyn:

(i) Yr Awdurdod Tân

Yn y Rheolau Sefydlog hyn, bydd yr ymadrodd "y Gwasanaeth Tân" yn cynnwys cyfeiriad at Bwyllgor priodol neu Brif Swyddog Tân sy'n gweithredu yn unol ag awdurdod dirprwyol ar ran A.T.G.C.

(ii) Mae'r Prif Swyddog Tân yn cynnwys:

- Prif Swyddog Tân a'r Prif Weithredwr
- Dirprwy Brif Swyddog Tân
- Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
- Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol)

(iii) "Cytundeb(au)"

Bydd yr ymadrodd "Cytundeb(au)" yn cynnwys unrhyw drefniant lle bydd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn derbyn neu'n dosbarthu nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau neu'n cyflawni gwaith neu os yw'n mwneud â chyflawni gwaith boed yn cynnwys taliadau fesul cam neu fel arall a pha un ai y'i crewyd drwy osod archeb, arwahân i archebion a osodwyd dan gytundeb ar wahân sy'n darparu cynnig safonol, cyfnewid gohebiaeth neu drwy ddogfennau sydd wedi'u selio a'u harwyddo.

(iv) "Amcangyfrif"

Asesiad o feintiau, niferoedd, maintioli, costau ayb., heb gyfrif na mesur yn wirioneddol.

(v) "Dyfyniad"

Y swm a nodwyd ar gyfer pris stoc neu unrhyw nwydd i'w werthu, neu ar gyfer cyflawni gwaith neu ddarparu gwasanaethau.

(vi) "Tendro"

Cynnig a wneir yn ysgrifenedig gan un ochr i'r llall i weithredu, am bris a gynhwysir neu'r gyfradd unffurf, archeb ar gyfer cyflenwi neu brynu nwyddau, neu ar gyfer cyflawni gwaith, neu ddarparu gwasanaethau, y mae eu manylion wedi'u cyflwyno gan yr ochr arall.

3 CYMERADWYO CYNLLUNIAU

3. 1 Cynllunio cytundeb ar gyfer cyflawni gwaith yr amcangyfrifir ei fod yn werth mwy na £40,000, fe baratoir amcangyfrif ysgrifenedig o'r gost debygol o gyflawni'r gwaith mewn dull priodol, ynghyd ag ar sylwadau ynghylch y goblygiadau ariannol, gan y Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd a'i adrodd i'r Awdurdod Tân. Gwaherddir rhannu cytundebau sengl sy'n werth mwy na £40,000 yn gytundebau llai dan £40,000.

3.2 Ystyrir bod Cynlluniau a gynhwysir yn y Rhaglen Gyfalaf wedi derbyn cymeradwyaeth.

4 CYDYMFFURFIO

4.1 Cydymffurfio â Darpariaethau Statudol ayb.

4.1.1 Nid oes unrhyw beth yn y Rheolau Sefydlog hyn sydd i'w cymryd fel elfennau sy'n eithrio A.T.G.C. mewn perthynas ag unrhyw gytundeb, o ddarpariaethau hollbwysig:

(i) Cytundeb y Gymuned Economaidd Ewropeaidd ac unrhyw Gyfarwyddiadau perthnasol gan yr Undeb Ewropeaidd sydd mewn grym am y tro yn y Deymas Gyfunol;

(ii) Unrhyw Ddeddf Cyfarwyddyd, Rheol neu Orchymyn Statudol arall.

4.2 Cydymffurfio â Rheolau Sefydlog

4.2.1 Dylai pob Cytundeb a wneir gyda thrydydd person neu bersonau ar ran y Cyngor gydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog hyn a lle bo hynny'n angenrheidiol, â gofynion:

(i) Deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd;

(ii) Ni wneir unrhyw eithriadau mewn perthynas a'r darpariaethau, ar wahân i drwy gyfarwyddyd A.T.G.C.;

(iii) Dylid rhoi gwybod am unrhyw eithriadau a wneir ar ran A.T.G.C., yn ysgrifenedig, i'r Awdurdod gyda'r rhesymau dros gyfiawnhau'r eithriad cyfarwyddyd.

5 Y GOFYNION PARTHED GWAHODD DYFYNIADAU NEU DENDRAU

5.1 Dylid sicrhau dyfyniadau neu dendrau ysgrifenedig gan o leiaf tair ffynhonnell gystadleuol am waith neu am gyflenwi nwyddau a gwasanaethau lle mae'r gost amcangyfrifol yn fwy na £10,000 ond yn llai na £40,000. Ar gyfer gwaith adeiladu a gwaith cysylltiedig, defnyddir Constructionline I gael rhestr hir o gontractwyr cyn-cymhwyso. Bydd y rhester fer yn cael ei llunio ohoni a bydd y rhai ar y rhestr yn cael eu gwahodd i ddarparu tendr.

5.2 Gwahoddir tendrau yn unol â darpariaethau Rheol Sefydlog Rhif 8 mewn perthynas â gwaith neu gyflenwadau lle mae'r gost a amcangyfrifir yn fwy na £40,000.

5.3 Lle gwahoddir dyfyniadau neu dendrau am gyflenwadau blynyddol, dylai'r Prif Swyddog Tân werthuso cost flynyddol debygol pob nwydd, ac ni fydd yr eithriad rhag bod angen sicrhau dyfyniadau neu dendrau a ddarperir yn Rheol Sefydlog Rhif 6.2 yn berthnasol oni bai fod y gost flynyddol amcangyfrifir yn llai na £10,000.

6 EITHRIADAU DAN Y GOFYNION PARTHED GWAHODD DYFYNIADAU NEU DENDRAU

6.1 Nid oes dim yn y Rheolau Sefydlog hyn yn datgan, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Adran 135 (3) Deddf Llywodraeth Leol 1972, ei bod yn ofynnol gwahodd tendrau:

(i) Mewn perthynas a chytundebau ar gyfer cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau:

(a) Os yw'r nwyddau neu'r deunyddiau yn nwyddau patent neu'n cael eu gwerthu am bris sefydlog yn unig ac nad oes unrhyw ddewis boddhaol a rhesymol arall ar gael;

(b) Os yw prisiau'r nwyddau neu'r deunyddiau'n cael eu rheoli'n llwyr gan sefydliadau masnach neu orchymyn y llywodraeth ac nad oes unrhyw ddewis boddhaol rhesymol arall ar gael;

(c) Os, am resymau eraill, na fyddai unrhyw gystadleuaeth ddilys arall.

(ii) Mae'r gwaith i'w gyflawni neu'r nwyddau neu'r deunyddiau i'w cyflenwi yn creu estyniad ar gytundeb sy'n bodoli eisoes (estyniad o'r fath i gael ei gymeradwyo gan gyflwyno i'r Pwyllgor priodol sy'n gyfrifol);

(iii) Mae'r gwaith i'w gyflawni neu'r nwyddau neu'r deunyddiau i'w cyflenwi yn cynnwys atgyweiriadau i neu gyflenwi darnau ar gyfer peiriannau patent sy'n bodoli eisoes; neu

(iv) Prynir gan gonsortiwm, cwmnïau cydweithredol neu gorff tebyg, y mae'r Awdurdod Tân yn aelod ohono.

6.2 Bydd yr angen am sicrhau tendrau a dyfyniadau ysgrifenedig yn unol â disgresiwn y Prif Swyddog Tân ar gyfer gwariant amcangyfrifol ar eitemau gwerth llai na £10,000 ond nid yw hyn yn dileu cyfrifoldeb y Prif Swyddog Tân o'i allu i ddangos bod gwerth am arian wedi'i sicrhau.

6.3 Os, wedi cydymffurfio'n briodol â darpariaethau Rheol Sefydlog Rhif 5 ar gyfer gwahodd dyfyniadau neu dendrau, nad oes dyfyniadau neu dendrau neu ddyfyniadau neu dendrau boddhaol wedi'u derbyn, gall y Prif Swyddog Tân neu unrhyw Swyddog arall a awdurdodir ganddo ddyrannu'r cytundeb ar gyfer gwaith neu archebu'r cyflenwadau fel y gwêl yn briodol yn ddarostyogedig i'r ffaith bod yr ymrwymiad gwariant oddi mewn i'r ddarpariaeth gyllidebol sydd ar gael.

7 CYTUNDEBAU AR GYFER GWAITH A CHYFLENWADAU BRYS

7.1 Nid oes unrhyw beth yn y Rheolau Sefydlog hyn sy'n dweud ei bod yn ofynnol gwahodd tendrau neu ddyfyniadau lle mae'r gwaith sydd i'w gyflawni neu'r cyflenwadau sydd i'w prynu yn angenrheidiol ar gyfer gwarchod bywyd neu eiddo.

7.2 Awdurdodir gwariant ar waith neu gyflenwadau brys gan y Prif Swyddog fydd yn adrodd yn ôl am y dull o weithredu i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor priodol.

8 GWEITHDREFN AR GYFER GWAHODD TENDRAU

8.1 Os, dan ddarpariaethau'r Rheolau Sefydlog hyn ei bod yn angenrheidiol gwahodd tendrau ar gyfer cyflenwadau neu gyflawni gwaith, gwahoddir y tendrau yn unol â'r weithdrefn a restrir dan y Rheol Sefydlog hon fel a bennir gan A.T.G.C. neu fel arall fel a bennir yn briodol gan y Prif Swyddog Tân. Gwaherddir rhannu cytundebau sengl sy'n werth mwy na £40,000 yn gytundebau llai o dan £40,000.

8.2 Tendro Dethol

(i) Bydd y weithdrefn dendro hon yn berthnasol lle penderfynir gwahodd tendrau gan rai neu'rholl bersonau neu gyrff hynny sydd wedi ymateb i rybudd cyhoeddus yn rhoi manylion am y cytundeb, a gwahodd personau neu gyrff sydd â diddordeb mewn gwneud cais am ganiatâd i dendro, neu a ddewisir gan yr Awdurdod Tân o blith y personau neu'r cyrff hynny sydd eisoes ar Restr Sefydlog A.T.G.C. o Gontractwyr y cyfeirir ati yn Adran 8.3 isod; neu yn Constructionline.

(ii) Rhoddir Rhybudd Cyhoeddus dan ddarpariaeth y Rheol Sefydlog hon mewn o leiaf un papur newydd, a lle amcangyfrifir bod gwerth y cytundeb yn fwy na £50,000, mewn un papur newydd neu gyfnodolyn gyda chylchrediad ymhlith personau neu gyrff sy'n ymgymryd â chytundebau o'r fath. Bydd y rhybudd hefyd yn manylu ynghylch cyfyngiad amser o ddim llai na 14 niwrnod ar gyfer cyflwyno ceisiadau o'r fath i'r Awdurdod Tân.

8.3 Rhestr Sefydlog o Gontractwyr neu Gyflenwyr

(i) Bydd y weithdrefn dendro hon yn berthnasol lle mae gwahoddiadau i dendro am gytundeb yn gyfyngedig i'r personau neu'r cyrff hynny y mae eu henwau yn gynwysedig ar Restr Sefydlog a lunnir ac a gedwir ar gyfer y diben hwnnw yn unol â'r darpariaethau y cytunir arnynt isod; neu sy'n ffurfio rhestr o gontractwyr cyn-cymhwyso oddi wrth Constructionline ;

(ii) Bydd y Rhestr Sefydlog yn cynnwys enwau pob person neu gorff sy'n dymuno cael ei gynnwys ac a gymeradwyir ar gyfer eu cynnwys.

(iii) Wrth lunio Rhestr Sefydlog bydd angen cyhoeddi rhybuddion yn gwahodd, o fewn cyfnod o ddim llai na 4 wythnos, cais am gael ei gynnwys ar y rhestr gan bersonau â diddordeb ac fe gyhoeddir yn:

(a) o leiaf un papur lleol wythnosol, a

(b) un papur newydd neu gyfnodolyn sy'n cylchredeg ymhlith personau neu gyrff sy'n ymgymryd â chytundebau o'r fath; mae defnyddio Constructionline yn osgoi'r angen i hysbysebu am gontractwyr sydd â diddordeb mewn tendro am waith adeiladu neu waith cysylltiedig ;

(iv) Cyn y gellir ei gynnwys ar y Rhestr, bydd y Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd yn asesu gallu technegol a sefyllfa ariannol yr ymgeisydd, er mwyn penderfynu a yw'n addas i'w gynnwys ar y rhestr oni bai ei fod wedi'i ddewis drwy Constructionline lle bo'r broses cyn-cymhwyso eisoes wedi'i dilysu.

(v) Bydd y Rhestr Sefydlog yn nodi wrth ymyl enw bob person neu gorff a gaiff ei gynnwys, categorïau'r cytundeb a gwerthoedd neu gyfansymiau mewn perthynas â'r categorïau hynny y cymeradwywyd eu cynnwys ar y rhestr;

(vi) Adolygir y Rhestr Sefydlog yn rheolaidd, gyda dim llai na 2 flynedd a dim mwy na 4 blynedd rhwng pob adolygiad, a rhoddir gwybod i A.T.G.C am unrhyw ddiwygiadau a wneir yn ystod y

cyfnod hwn. Bydd defnyddio Constructionline yn diddymu'r angen i gadw rhestr sefydlog o gontractwyr adeiladau.

(vii) Bydd y gwahoddiad i dendro yn cael ei anfon allan ar bob achlysur at ddim llai na PHEDWAR o'r personau neu'r cyrff hynny y mae eu henwau'n gynwysedig ar y Rhestr Sefydlog, neu a gafwyd o restr cyn-cymhwyso Constructionline, yn unol ag unrhyw Gôd Ymarfer ar gyfer gwahodd tendrau a fabwysiadwyd gan A.T.G.C. ar gyfer categorïau penodol o waith;

(viii) Lle bydd enw llai na phedwar person neu gorff yn cael eu cynnwys ar y Rhestr Sefydlog neu sydd ar restr cyn-gymhwyso Constructionline ar gyfer y categorïau gwaith neu gyflenwi perthnasol, bydd gwahoddiad i dendro yn cael ei anfon at yr holl bersonau rheini;

(ix) Os bydd y cyfryw bersonau neu gyrff sydd am gael eu hystyried ar gyfer eu cynnwys ar Restr Sefydlog o Gontractwyr neu Gyflenwyr, yn canfasio neu'n erfyn ar unrhyw Aelod, Swyddog neu Weithiwr Cyflogedig o'r Awdurdod Tân mewn cysylltiad â'u cais am gael eu cynnwys ar y rhestr, neu, unrhyw ddiwygiadau i'r rhestr yn dilyn adolygiad, ni fydd ef/hwy yn cael ei(u) hystyried a byddant yn cael eu dileu o'r rhestr yn ôl yr achos;

(x) Yn yr un modd, os bydd unrhyw berson neu gorff a gynhwysir ar y Rhestr Sefydlog yn canfasio neu'n erfyn ar unrhyw Aelod, Swyddog neu Weithiwr Cyflogedig o'r Awdurdod Tân am wahoddiad i gyflwyno tendr ar gyfer unrhyw brosiect neu gynllun, yna ni fydd ef yn cael ei ystyried a bydd yn cael ei ddileu o'r rhestr;

(xi) Bydd unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad a wnaed o dan 8.3 (ix), neu, 8.3 (x), yn cael ei glywed gan Banel o Aelodau A.T.G.C.

8.4 Tendro Agored

(i) Bydd y weithdrefn dendro hon yn berthnasol lle penderfynir bod tendrau i'w sicrhau drwy gyfrwng cystadleuaeth agored;

(ii) Rhoddir rhybudd cyhoeddus mewn un neu fwy o bapurau newydd lleol neu lle amcangyfrifir bod gwerth y cytundeb yn fwy na £50,000, mewn un neu fwy o bapurau newydd neu gyfnodolion sydd a chylchrediad ymhlith y personau neu'r cyrff fydd yn ymgymryd â chytundebau o'r fath;

(iii) Bydd y rhybudd yn mynegi natur a diben y cytundeb, yn gwahodd tendrau ar gyfer ei weithredu ac yn nodi dyddiad, amser a lleoliad terfynol ar gyfer dosbarthu y mae'n rhaid i'r tendrwyr gydymffurfio â hwy.

8.5 Tendrau Cyfresol

(i) Dim ond pan gaiff ei chyfarwyddo'n benodol gan yr Awdurdod Tân fydd y weithdrefn dendro hon yn berthnasol, a lle mae'r cytundeb yn rhan o raglen gyfresol, gyda'r telerau wedi'u trefnu gyda'r contractwr ar sail cyfraddau a phrisiau a gynhwysir yn y cytundeb gwreiddiol a ddyfarnwyd yn gystadleuol yn sgil gwahoddiad i dendro yn unol â darpariaethau'r Rheol Sefydlog hon.

(ii) Pan fydd angen ymestyn cytundeb o ganlyniad i bennu gwaith ychwanegol o natur debyg i'r hyn a gyflawnwyd o dan y cytundeb cyfredol, yna dim ond un estyniad a ganiateir o dan y rheol hwn cyn y bydd rhaid ail-dendro.

8.6 Cytundeb a Drefnwyd

Dim ond gydag un contractwr y trefnir cytundeb lle bydd A.T.G.G., wedi ystyried yr holl amgylchiadau, yn penderfynu bod gweithredu o'r fath yn ddymunol er lles y cyhoedd.

8.7 Cylchdroi Contractwyr

(i) Fel rhan o strategaeth gwrth-dwyll A.T.G.C., dylid rhoi cyfle cyfartal i'r holl gwmnïau ar y rhestr sefydlog gyflwyno tendrau. Cyflawnir hyn drwy sicrhau bod gwahoddiadau i dendro yn cael eu rhannu'n gyfartal ymhlith y cwmnïau ar y rhestr gymeradwyedig mewn modd a fydd yn sicrhau nad yw'r un cwmni yn derbyn gwahoddiad, neu'n ymddangos ei fod yn derbyn gwahoddiad, yn amlach nac eraill.

(ii) Wrth lunio 'rhestr fer' ragarweiniol o gontractwyr posibl o'r Rhestr Sefydlog, dylid gwneud ymholiadau i ganfod parodrwydd pob cwmni ac os ydynt ar gael i gyflawni'r gwaith. Dim ond y contractwyr hynny sydd wedi eu gwerthuso yn ôl meini prawf penodol i'r prosiect, ac sydd wedi paratoi yn unol â gofyniad Rheol Sefydlog 8.7 (i), uchod, fydd yn cael eu gosod ar y rhestr.

(iii) Rhaid cadw cofnodion, ar gyfer pob cynllun, yn nodi'r holl gwmnïau y cysylltwyd â hwy gan gynnwys y rhai hynny a wrthododd y gwahoddiad i dendro. Os bydd achos yn codi llemynegodd contractiwr ei fwriad i gyflwyno tendr ond iddo fethu â gwneud hynny, dyli gofyn am esboniad a chofnodi'r wybodaeth.

9 CYFLWYNO A DIOGELU DYFYNIADAU A THENDRAU

9.1 Bydd pob cyfres o ddogfennau tendro yn nodi natur a diben y cytundeb y gwahoddir y tendrau ar ei gyfer, gau nodi'r dyddiad a'r amser olaf ar gyfer derbyn tendrau a nodi bod yr Awdurdod Tân yn cadw'r hawl i beidio â derbyn unrhyw dendr neu i dderbyn unrhyw dendr ar wahân i'r isaf lle mae'r taliad i'w wneud gan yr Awdurdod Tân neu'r uchaf os yw'r taliad i gael ei dderbyn gan yr Awdurdod Tân.

(i) Bydd yn ofynnol i bob un sy'n tendro gyflwyno datganiad wedi'i arwyddo yn dweud nad yw pris eu tendr wedi'i ddatgelu i eraill ar wahân i'r yswirwyr dan gyfrinachedd ac nad ydynt wedi newid swm unrhyw dendr neu ddyfyniad arfaethedig yn unol ag unrhyw gytundeb neu drefniant rhwng y tendrwr arfaethedig ac unrhyw berson arall.

(ii) Mae'n rhaid rhoi cyfarwyddiadau i dendrwyr ynghylch cyflwyno dogfennau, gan nodi bod yn rhaid derbyn tendrau erbyn y dyddiad a ddynodir ar y llythyr sy'n gwahodd y tendrau a bod yn rhaid ei ddanfon gyda chludwr neu â llaw a'i gyfnewid am dderbynneb, a gyhoeddir gan y Gwasanaeth Tân ac Achub, neu gyda Phost Cofrestredig neu Bost wedi'i Gofnodi.

(iii) Rhaid i gyfarwyddiadau'r tendr gynnwys arwydd o'r dull y dewisir y cais llwyddiannus, h.y., ar sail Pris, Safon, neu gyfuniad o Bris a Safon.

9.2 Gyda phob gwahoddiad i dendro, nodir ei bod yn ofynnol i bob tendrwr gyflwyno ei dendr i'r Prif Swyddog Tân mewn amlen blaen wedi'i selio ac wedi'i marcio'n briodol gyda "Tendr ar gyfer y ....." yn unol â'r pwnc y mae'n berthnasol iddo, a bydd amodau'r tendr yn nodi'n eglur y dyddiad a'r amser olaf ar gyfer derbyn y tendrau. Dylid dynodi dyddiad ac amser derbyn y ddogfen dendro ar amlen y tendr ac ni ddylai'r amlen fod ag unrhyw farc cyfeiriol arni, a allai beri i rywun adnabod y sawl sy'n tendro. Bydd y Prif Swyddog Tân yn nodi'n briodol ar amlen pob tendr ddyddiad ac amser derbyn y tendr ac yn trefnu man diogel i gadw'r holl dendrau a dderbyniwyd oherwydd ni fyddant yn cael eu hagor hyd nes y penodir amser ar gyfer eu hagor yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 10.

9.3 Cyfeirir dyfyniadau a wahoddir dan Reol Sefydlog 5 i'r Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) mewn amlen blaen wedi'i selio ac wedi'i marcio gyda "Dyfyniad ar gyfer ....." yn unol â'r pwnc y mae'n ymwneud ag ef a bydd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) yn nodi ar bob amlen gyda dyfyniad ynddi amser a dyddiad ei derbyn a bydd yn trefnu man diogel ar gyfer cadw pob dyfyniad a gyflwynir hyd nes yr amser a benodwyd ar gyfer eu hagor yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 10.

9.4 Bydd gan y Pwyllgor Gwaith rym i atal rhag cyflwyno tendrau pellach, yn cynnwys dileu oddi ar unrhyw Restr Sefydlog o Gontractwyr, unrhyw dendrwr sydd ym marn y Pwyllgor Gwaith wedi tynnu

tendrau yn ôl yn afresymol neu sydd wedi torri unrhyw gontract gyda'r Awdurdod Tân neu y mae'r gwaith o gwblhau cytundeb wedi bod yn anfoddhaol ym marn yr Awdurdod Tân.

9.5 Bydd yn ofynnol i bob tendrwr am gytundeb gadarnhau yn ysgrifenedig:

(i) Nad yw wedi canfasio nac erfyn ar unrhyw Aelod, Swyddog neu Weithiwr i'r Awdurdod Tân mewn perthynas â dyfarnu'r tendr hwnnw neu unrhyw dendr arall neu dendr arfaethedig ar gyfer yr Awdurdod Tân ac nad oes unrhyw berson a gyflogir ganddo ef neu sy'n gweithredu ar ei ran wedi cyflawni gweithred o'r fath;

(ii) Ei fod yn addo na fydd yn y dyfodol yn canfasio nac yn erfyn ar unrhyw Aelod, Swyddog neu Weithiwr i'r Awdurdod Tân mewn perthynas â dyfarnu'r tendr hwnnw neu unrhyw dendr arall neu dendr arfaethedig ar gyfer yr Awdurdod Tân ac na fydd unrhyw berson a gyflogir ganddo ef neu sy'n gweithredu ar ei ran yn cyflawni gweithred o'r fath;

(iii) Y bydd unrhyw dor-amod mewn perthynas â'r gofynion uchod yn rhoi hawl i'r Awdurdod Tân wrthod tendr a/neu ganslo cytundeb, a bydd y dogfennau gwahodd tendrau a/neu amodau'r cytundeb yn datgan y ffaith hon.

10 AGOR DYFYNIADAU A THENDRAU

10.1 Agorir y dyfyniadau a wahoddir dan Reol Sefydlog Rhif 5.1 ar yr un pryd gan y Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) neu swyddog a benodir ganddo ef ar gyfer y diben hwnnw ac ym mhresenoldeb o leiaf un swyddog arall. Bydd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) yn cadw cofnod priodol yn dangos dyddiad derbyn, dyddiad agor, manylion y dyfyniad a'r penderfyniad yn ei gylch ar gyfer pob dyfyniad a dderbynnir, a bydd y cofnod hwnnw'n cael ei ardystio'n briodol gan y swyddogion a benodir i agor y dyfyniadau a byddant yn agored i archwiliad gan unrhyw Aelod o'r Awdurdod Tân.

10.2 Agorir pob tendr a gyflwynir ar yr un pryd gan:

(i) lleiafswm o DDAU berson sef y Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) neu unrhyw swyddog penodedig arall a'r Prif Swyddog Tân neu unrhyw swyddog a benodir ganddo ef ar gyfer y diben hwnnw os yw gwerth amcangyfrifol y cytundeb yn llai na £40,000.

(ii) lleiafswm o DRI person, sef y Cadeirydd, neu berson arall a enwebyd yn ei le, y Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) a'r Prif Swyddog Tân neu swyddogion eraill a benodir ganddynt hwy ar gyfer y diben hwnnw os yw gwerth amcangyfrifol y cytundeb yn £40,000 neu fwy.

10.3 Bydd yr Awdurdod Tân yn cadw cofnod o bob tendr a dderbynnir gan ddangos natur pob cytundeb, enw pob tendrwr, swm pob tendr, dyddiad derbyn y tendr a dyddiad ei agor a'r derbyniad neu unrhyw benderfyniad arall fel y bo'n briodol a bydd y rhai sy'n bresennol adeg agor y tendrau yn dystion priodol i gofnod o'r fath. Bydd y cofnod yn agored i archwiliad gan unrhyw Aelod o'r Awdurdod Tân. Bydd copi o'r cofnod yn cael ei anfon ymlaen i'r Adain Archwilio Mewnol, os gofynnir amdano.

10.4 Bydd pob tendr a dderbynnir yn cael ei lungopïo er diben gweithio ag ef a bydd y gwreiddiol yn cael ei gloi mewn man diogel.

11 DYFYNIADAU A THENDRAU HWYR

11.1 Nodir ar bob tendr neu ddyfyniad a dderbynnir wedi'r dyddiad cau a nodwyd yr amser a'r dyddiad derbyn ac os yw pob tendr neu ddyfyniad arall wedi'i agor, yna bydd y tendr neu'r dyfyniad hwyr yn cael ei agor i sicrhau enw'r tendrwr. Fel rheol bydd yn cael ei ddychwelyd rhag blaen gan y Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol). Fodd bynnag, os nad yw'r holl dendrau a dyfyniadau a dderbyniwyd wedi cael eu hagor eto ac os oes tystiolaeth bod y tendr hwyr wedi cael ei bostio ar amser i gyrraedd mewn pryd gyda phost arferol, efallai y bydd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) a'r Trysorydd a'r Cadeirydd yn cytuno i ganiatáu i dendr neu ddyfyniad o'r fath gael ei ystyried. Yn yr un modd, os oes amgylchiadau arbennig yn gysylltiedig â

chyflwyno tendr hwyr, gall y Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol), y Trysorydd a'r Cadeirydd ganiatáu i dendr o'r fath gael ei ystyried yn ffurfiol.

12 GWERTHUSO A DERBYN DYFYNIADAU A THENDRAU

12.1 Amcan y broses o Werthuso tendrau yw sicrhau y pennir y tendr mwyaf priodol ac y caiff ei gymeradwyo ar gyfer ei dderbyn. Cydnabyddir nad y tendr mwyaf addas fydd y rhataf o angenrheidrwydd, ac, felly, pan fo ffactorau ar wahân i'r pris i'w hystyried, dylid gwerthuso pob tendr.

12.2 Os mai'r bwriad yw asesu tendrau ar sail safon yn ogystal â phris, rhaid i ddogfennau yn ymwneud â'r tendr egluro'r meini prawf a ddefnyddir ar gyfer yr asesiad. Yn ychwanegol, rhaid i'r gyfeireb a ddefnyddiwyd ar gyfer meini prawf yr asesiad gael eu cofnodi a rhaid sicrhau eu bod ar gael i'r Adain Archwilio Mewnol cyn y bydd gwahoddiadau'r tendr yn cael eu cyhoeddi.

12.3 Lle bo'r broses werthuso yn golygu cysylltu â thendrwyr, rhaid sicrhau y cysylltir â hwy yn unol â gweithdrefn benodedig sy'n pennu sut y dylid cysylltu, a'r math o gofnodion y dylid eu cadw. Rhaid cyflwyno'r weithdrefn hon i'r Adain Archwilio Mewnol cyn y gellir ei gweithredu, ac yn yr un modd, unrhyw ddiwygiadau a wneir iddi.

12.4 Ni dderbynnir tendr neu ddyfyniad ar wahân i'r isaf os yw'r taliad i'w wneud gan yr Awdurdod Tân neu os yw'r taliad uchaf i'w dderbyn gan yr Awdurdod Tân hyd nes y bo'r Cadeirydd/Trysorydd wedi ystyried adroddiad ysgrifenedig gan y Prif Swyddog Tân neu ei gynrychiolydd cymeradwy.

12.5 Gall tendrau a wahoddir ac a gyflwynir yn briodol yn unol â darpariaethau'r Rheolau Sefydlog hyn, gael eu derbyn gan y Prif Swyddog Tân mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, neu berson a enwebir i gymryd ei le, ar yr amod bod darpariaeth ariannol benodol yn amcangyfrifon refeniw blynyddol cymeradwy neu raglen gyfalaf yr Awdurdod Tân a bod swm y tendr oddi mewn i'r ddarpariaeth honno.

12.6 Yn y ddau achos uchod, mae derbyniad yn awdurdodi cwblhau unrhyw gytundeb angenrheidiol, yn 8 cynnwys gosod y Sêl Gyffredin ar Ddogfennau'r Cytundeb, ond bydd yn ddarostyngedig i'r canlynol:

(i) Bydd y Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd yn fodlon ynghylch gallu technegol a sefyllfa ariannol y tendrwr llwyddiannus;

(ii) Os yw Panel Gweithredol neu Awdurdod Tân am ryw reswm yn ymgymryd â'r gwaith o dderbyn tendr, ni fydd enwau'r tendrwyr yn cael eu datgelu i'r Panel Gweithredol neu'r Awdurdod Tân cyn derbyn o atodlen wedi'i rhifo o'r tendrau a dderbyniwyd a,

(iii) Os yw swm dyfyniad neu dendr yn fwy na'r ddarpariaeth ariannol o ddim mwy na 10%, gall y Prif Swyddog Tân mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd dderbyn y tendr, ond os yw'r darpariaethau ariannol yn gynwysedig yn y gyllideb refeniw flynyddol, bydd y gwaith o dderbyn y tendr yn ddarostyngedig hefyd i arenwi trosglwyddiad ariannol oddi mewn i gyllideb gymeradwy a chytuno ar hynny gyda'r Trysorydd.

12.7 Gall y Prif Swyddog Tân dderbyn dyfyniad a wahoddir dan ddarpariaethau Rheol Sefydlog Rhif 5.1 drwy gadarnhad ysgrifenedig fel a ddarperir dan Reol Sefydlog Rhif 15 ar yr amod bod darpariaeth ddigonol felly yn yr amcangyfrifon refeniw blynyddol neu'r rhaglen gyfalaf a gymeradwyir gan yr Awdurdod Tân.

12.8 Bydd y Prif Swyddog Tân yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor gwario priodol am bob achos lle mae awdurdod dirprwyol wedi'i ymarfer wrth dderbyn tendr, a bydd yn rhoi gwybod i'r tendrwyr llwyddiannus ac aflwyddiannus am benderfyniad yr Awdurdod Tân.

13 ADDASIADAU I DDYFYNIADAU A THENDRAU

13.1 Os bydd archwiliad o'r tendrau yn dangos camgymeriadau neu anghysonderau fyddai'n effeithio ar y ffigyrau mewn tendr fyddai'n llwyddiannus fel arall, rhoddir cyfle i'r tendrwr gadarnhau neu dynnu ei dendr wedi'i gywiro cyn ei dderbyn gan yr Awdurdod Tân. Os tynnir y tendr yn ôl, bydd y tendr nesaf

yn y drefn gystadleuol yn cael ei drin yn yr un modd, a dim ond wedi ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog Tân y gall y Pwyllgor Gweithredol, sy'n gweithredu ar ran yr Awdurdod Tân, awdurdodi unrhyw eithriad i'r weithdrefn hon.

14 IS-GONTRACTWYR A CHYFLENWYR A ENWEBIR

14.1 Os yw is-gontractwr neu gyflenwr i gael ei enwebu i brif gontractwr, bydd y darpariaethau a ganlyn yn berthnasol:-

(i) Os nad yw swm amcangyfrifol yr is-gytundeb ar gyfer gwaith neu gyflenwadau yn llai na £40,000 yna oni bai fod y Prif Swyddog Tân o'r farn nad yw'n rhesymol ymarferol sicrhau dyfyniadau neu dendrau cystadleuol ysgrifenedig mewn perthynas ag enwebiad arbennig, a'i fod yn tystio i hynny yn ysgrifenedig, gwahoddir dyfyniadau neu dendrau, ac ymdrinnir â hwy yn unol â darpariaethau'r Rheolau Sefydlog hyn;

(ii) Os yw swm amcangyfrifol yr is-gytundeb yn fwy na £40,000, yna oni bai fod yr Awdurdod Tân yn penderfynu nad yw'n rhesymol ymarferol sicrhau tendrau cystadleuol mewn perthynas ag enwebiad arbennig, gwahoddir tendrau ac ymdrinnir â hwy yn unol â darpariaethau'r Rheolau Sefydlog hyn;

14.2 Bydd y Prif Swyddog Tân yn enwebu i'r prif gontractwr yr is-gontractwr llwyddiannus dan (i) a (ii) uchod.

14.3 Bydd y Prif Swyddog Tân yn rhoi gwybod am ddyfyniadau neu dendrau a wahoddwyd ac adderbyniwyd ac am enwebu is-gontractwyr dan ddarpariaethau'r Rheol Sefydlog hon i gyfarfod nesaf A.T.G.C.

14.4 Mewn perthynas ag amodau pob tendr, bydd yn ofynnol i is-gontractwr/gyflenwr a enwebir lunio cytundeb gyda'r prif gontractwr ar delerau sy'n gwarchod y prif gontractwr rhag ei rwymedigaethau yn y prif gytundeb mewn perthynas a'r is-gytundeb.

15 FFURF Y CYTUNDEB

15.1 Bydd pob cytundeb yn ysgrifenedig ac ar ffurf a gymeradwyir gan yr Awdurdod Tân, ond yn achos cytundebau gwerth dim mwy na £40,000 gallant fod ar ffurf archeb swyddogol dan law y Prif Swyddog Tân.

15.2 Bydd cytundebau gyda gwerth mwy na £40,000 yn cael eu harwyddo gan y Prif Swyddog Tân, ar yr amod bod cytundebau y penderfynir yn eu cylch gan yr Awdurdod Tân neu y mae'n ofynnol yn gyfreithiol iddynt fod dan Sêl, yn cael eu gweithredu'n briodol yn unol â'r Rheol Sefydlog ar gyfer busnes yr Awdurdod Tân.

15.3 Bydd pob cytundeb ysgrifenedig yn manylu ynghylch:

(i) y nwyddau, y deunyddiau neu'r gwasanaethau i gael eu cyflenwi a'r gwaith i gael ei gyflawni;

(ii) y pris i'w dalu ynghyd â datganiad ynghylch swm unrhyw ostyngiad(au) neu dyniad(au) eraill;

(iii) y cyfnod ar gyfer cwblhau'r cytundeb oddi mewn iddo ac unrhyw delerau neu amodau eraill fel y cytunir yn eu cylch rhwng y gwahanol bartïon.

16 DIOGELWCH PERFFORMIAD Y CYTUNDEBAU

16.1 Iawndal Penodedig

16.1.1 Bydd cytundebau priodol ar gyfer gwaith neu gyflenwadau lle mae'r gost amcangyfrifol yn fwy na £40,000 a chytundebau y mae eu gwerth yn is na'r swm hwn os bydd y Prif Swyddog Tân mewn ymgynghoriad â'r Trysorydd, yn pennu bod hynny'n ddymunol, ac sy'n ymwneud â chyflawni gwaith neu ddosbarthu cyflenwadau erbyn dyddiad arbennig neu gyfres o ddyddiadau, yn darparu ar gyfer talu iawndal penodedig ar ran y contractwr pe bai'n methu a pherfformio o fewn yr amser a benodwyd, oni bai y cyfarwyddir fel arall gan y Cyngor.

16.2 Bondiau Perfformio

16.2.1 Bydd pob cytundeb ar gyfer gwaith neu gyflenwadau lle mae'r gost amcangyfrifol yn fwy na £250,000 yn nodi yn amodau'r tendr natur a swm y gwarant a roddir, oni chymeradwyir yn wahanol gan yr Awdurdod Tân, a bydd yr Awdurdod Tân yn cymryd bond neu warant digonol arall ar gyfer perfformiad priodol y cytundeb.

17 YSWIRIANT

17.1 Ar gyfer pob cytundeb, neu orchymyn ar gyfer cyflawni gwaith, neu gyflenwi nwyddau a gwasanaethau, bydd angen prawf bod yswiriant priodol digonol mewn lle cyn dechrau'r cytundeb. Os bydd angen, dylid cael gafael ar gopi(au) o'r polisïau adnewyddu yn ystod y cyfnod cytundebol.

18 MANYLION A SAFONAU

18.1 Os oes Manylyn Safonau Prydain neu Gôd Ymarfer Safonol Prydain a gyhoeddwyd gan SefydliadSafonau Prydain mewn grym ar ddyddiad y tendr, bydd pob cytundeb yn darparu ar gyfer i'r holl nwyddau a deunyddiau a gyflenwir a'r holl waith a wneir fod i'r safon sy'n ofynnol o leiaf dan y Manylyn Safonau Prydain neu'r Côd Ymarfer priodol.

18.2 Os nad oes Manylyn Safonau Prydain neu Gôd Ymarfer Safonol Prydain ar gael i fanylu ynghylch ysafon sy'n ofynnol mewn perthynas â gwaith neu nwyddau angenrheidiol, bydd pob cytundeb ynseiliedig ar fanylion pendant oni bai fod y Prif Swyddog Tân yn penderfynu'n wahanol mewn cytundeb arbennig neu gategorïau penodol.

19 IECHYD A DIOGELWCH YN Y GWAITH

19.1 Mae'n rhaid i bob cytundeb a lunnir gan yr Awdurdod Tân gydymffurfio â darpariaethau priodol y Rheoliadau Gofynion Iechyd a Diogelwch a Chôd Ymarfer Gweithio Diogel A.T.G.C.

20 GOSOD CYTUNDEBAU

20.1 Bydd pob cytundeb ysgrifenedig ar gyfer gwaith neu gyflenwadau yn darparu nad yw'r contractwr yn gosod yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol ei gytundeb cyfan neu ran ohono heb gymeradwyaeth ysgrifenedig A.T.G.C.

21 CANSLO CYTUNDEB/ATAL TWYLL

21.1 Ym mhob cytundeb ysgrifenedig mewnosodir cymal yn rhoi grym i'r Awdurdod Tân ganslo'r cytundeb ac i adfer gan y contractwr swm unrhyw golled yn sgil canslo, os;

(i) bydd y contractwr wedi cynnig neu roi neu gytuno i roi i unrhyw berson unrhyw rodd neu ystyriaeth o unrhyw fath fel anogaeth neu wobr am wneud neu ymatal rhag gwneud neu am fod wedi gwneud neu ymatal rhag bod wedi gwneud unrhyw weithred mewn perthynas â sicrhau neu weithredu'r cytundeb neu unrhyw gytundeb arall gydag A.T.G.C.;

(ii) am ddangos neu ymatal rhag dangos ffafriaeth neu anffafriaeth i unrhyw berson mewn perthynas â'r cytundeb neu unrhyw gytundeb arall gydag A.T.G.C.;

(iii) os bydd gweithredoedd o'r fath wedi'u gwneud gan unrhyw berson a gyflogir ganddo ef neu sy'n gweithredu ar ei ran (boed yn wybod neu heb yn wybod i'r contractwr);

(iv) os, mewn perthynas ag unrhyw gytundeb gydag A.T.G.C., bod y Contractwr neu unrhyw berson a gyflogir ganddo neu sy'n gweithredu ar ei ran wedi cyflawni unrhyw drosedd dan Ddeddfau Atal Llwgrwobrwyo 1889 i 1916; neu

(v) os rhoddir unrhyw ffi neu wobr, ac mae derbyn unrhyw un o'r rhain yn drosedd dan adran 117(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

22 PENODI YMGYNGHORWYR

22.1 Mae'n amod mewn perthynas â phenodi unrhyw Bensaer, Peiriannydd, Tirfesurydd neu unrhyw Ymgynghorydd arall (heb fod yn swyddog gyda'r Awdurdod Tân), sy'n atebol i'r Awdurdod Tân am oruchwylio'r cytundeb ei fod:-

(i) Yn cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog hyn fel pe bai'n Brif Swyddog Tân i'r Awdurdod Tân, ond bydd y weithdrefn ar gyfer gwahodd ac agor tendrau yn cael ei chymeradwyo ymlaen llaw gan y Prif Swyddog Tân.

(ii) Yn dangos, ar gais, i'r Trysorydd neu'r Prif Swyddog Tân, pob cofnod a gadwyd mewn perthynas a'r cytundeb y mae wedi'i benodi i'w oruchwylio.

(iii) Wedi cwblhau'r cytundeb, yn trosglwyddo pob cofnod i'r Prif Swyddog Tân priodol.

23 CYFLOGAU AC AMODAU GWAITH TEG

23.1 Ym mhob cytundeb ysgrifenedig ar gyfer cyflawni gwaith gwerth mwy na £40,000, bydd y cymalau a ganlyn yn cael eu mewnosod:

(i) Bydd y contractwr, mewn perthynas â phob person a gyflogir ganddo ef (boed er mwyn gweithredu'r cytundeb neu fel arall) ym mhob ffatri, gweithdy neu le a ddelir neu a ddefnyddir ganddo ef ar gyfer gweithredu'r cytundeb, yn cydymffurfio â'r amodau a ganlyn, sef:

(a) Talu cyfraddau cyflog a chadw at oriau ac amodau gwaith heb fod yn llai ffafriol na'r rhai sydd wedi'u sefydlu, ar gyfer y fasnach neu'r diwydiant yn yr ardal y gwneir y gwaith ynddi, drwy drafod neu gymrodeddu rhwng cynrychiolwyr sefydliadau cyflogwyr ac undebau llafur gyda chyfrannau sylweddol o'r cyflogwyr a'r gweithwyr sy'n ymwneud â'r fasnach neu'r diwydiant yn yr ardal;

(b) Yn absenoldeb y cybraddau cyflog neu'r amodau neu oriau gwaith sefydledig, talu cyfraddau cyflog a chadw at oriau ac amodau gwaith nad ydynt yn llai ffafriol na'r lefelau cyflog, oriau ac amodau y cedwir atynt gan gyflogwyr eraill sydd ag amgylchiadau tebyg yn y fasnach neu'r diwydiant y mae'r contractwr yn gysylltiedig ag ef.

(ii) Bydd y contractwr yn cydnabod hawl ei weithwyr i fod yn aelodau o undebau llafur yn unol â'u dewis hwy neu yn ddarostyngedig i Adran 58 o Ddeddf Gwarchod Cyflogaeth (Cydgyfnerthiad) 1978, fel y'i diwygiwyd, i beidio â bod yn aelodau o undeb lafur na sefydliad arall ar gyfer gweithwyr neu i wrthod bod yn aelod o undeb lafur arbennig neu sefydliad arbennig ar gyfer gweithwyr.

(iii) Bydd y contractwr bob amser yn ystod cyfnod y cytundeb yn arddangos, er gwybodaeth i'w weithwyr ym mhob ffatri, gweithdy neu le a ddelir neu a ddefnyddir ganddo ef ar gyfer gweithredu'r cytundeb, gopi o gymal 24.1(i) (a) a (b) uchod.

(iv) Bydd y contractwr yn gyfrifol am sicrhau bod is-gontractwyr a ddefnyddir ar gyfer gweithredu'r cytundeb yn cadw at y cymal hwn, a bydd, os bydd hynny'n ofynnol, yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Tân am enwau a chyfeiriadau pob is-gontractwr o'r fath.

(v) Pe cyfyd cwestiynau ynghylch a chedwir at yr amodau uchod, cyfeirir y cwestiwn, os na chaiff ei drin mewn unrhyw ffordd arall, ar gyfer penderfyniad gan gymrodeddwr annibynnol y cydgytunir arno gan yr Awdurdod Tân a'r contractwr.

(vi) Bydd y contractwr yn cadw llyfrau a dalennau amser priodol mewn perthynas â'r cyflogau a delir i bersonau a gyflogir ganddo ac sy'n gweithio ar y cytundeb, a bydd yn dangos dogfennau o'r fath i'w archwilio gan swyddog a awdurdodir gan yr Awdurdod Tân, os bydd yr Awdurdod Tân yn dweud bod hynny'n ofynnol.

23.2 Mewn unrhyw gytundeb a wneir gan neu ar ran yr Awdurdod Tân a lle bo Ffurf Safonol J.C.T. o Gytundeb Adeiladu ac Amodau Cytundeb I.C.E. sydd mewn grym ar y pryd yn cael eu defnyddio i, ac yn cynnwys cymal ar gyfer cyflogau ac amodau gwaith teg, bydd cytundeb o'r fath, oni nodir yn wahanol gan yr Awdurdod Tân, yn cydymffurfio â darpariaethau'r rheolau sefydlog hyn ar gyfer cytundebau.

23.3 Cyn derbyn tendr neu lunio cytundeb ar gyfer gwneud unrhyw waith a chyn gosod enw contractwr ar restr sefydlog o gontractwyr a chyflenwyr dan Reol Sefydlog Rhif 8, bydd yr Awdurdod Tân yn mynnu
sicrwydd ysgrifenedig gan y contractwr ei fod, hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred, am y cyfan neu unrhyw ran o gyfnod o dri mis yn union cyn dyddiad ei dendr neu ei gais am gael ei osod ar restr o'r fath, wedi cydymffurfio â'r amodau cyffredinol a orfodir yn Adran 23.1 (i) (a) a (b) uchod ar gyfer y cyfnod dywededig o dri mis neu ran o'r cyfnod hwnnw fel y bo'r achos.

.....